# Papur ar gyfer Cyngor Adnewyddu'r Economi

## Bil Cymru drafft

### Cefndir

Yn dilyn refferendwm 2011, gall y Cynulliad Cenedlaethol lunio deddfwriaeth yn unrhyw un o'r 20 maes pwnc sydd o fewn terfynau ei gymhwysedd. Gelwir y model hwn yn *fodel rhoi pwerau*: dim ond ynghylch materion yn ymwneud â maes sydd wedi'i ddatganoli'n benodol y gall y Cynulliad ddeddfu. Mae hynny'n wahanol i Senedd yr Alban, sy'n gallu deddfu mewn unrhyw faes oni bai bod y maes hwnnw wedi'i gadw'n ôl yn benodol (*'y model cadw pwerau'n ôl'*).

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei chynigion ar gyfer setliad datganoli newydd i Gymru ym mis Chwefror 2015. Roedd hynny'n dilyn ail adroddiad Comisiwn Silk a thrafodaethau â'r pleidiau gwleidyddol sydd yng Nghymru. Yn ei Phapur Gorchymyn, *Pwerau at bwrpas*, ymrwymodd Llywodraeth y DU i weithredu argymhellion Silk mewn achosion lle'r oedd consensws ymysg arweinwyr y pleidiau.

### Bil Cymru drafft

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei Bil Cymru drafft ym mis Hydref 2015. Roedd y Bil yn darparu ar gyfer symud o fodel rhoi pwerau i fodel cadw pwerau'n ôl: dan y Bil arfaethedig byddai'r Cynulliad Cenedlaethol yn gallu deddfu ynghylch unrhyw faes pwnc oni bai bod y maes wedi'i gadw'n ôl yn benodol yn y Bil.

Yn ogystal, roedd y Bil yn cynnwys darpariaethau ar gyfer datganoli cyfrifoldeb am y canlynol:

- etholiadau lleol ac etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol;
- gweithdrefnau a gwaith llywodraethu'r Cynulliad Cenedlaethol;
- terfynau cyflymder;
- porthladdoedd;
- carthffosiaeth;
- caniatadau ar gyfer prosiectau cynhyrchu ynni llai na 350 megawat;
- trwyddedu a chadwraeth forol;
- trwyddedu echdynnu olew a nwy ar y tir.

Mae'r Bil wedi bod yn destun gwaith craffu cyn y broses ddeddfu, gan Bwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin a Phwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol. Cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ei adroddiad ar 4 Rhagfyr 2015 gan alw am nifer o newidiadau i'r Bil cyn iddo gael ei gyflwyno. Mae adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig yn cael ei baratoi ar hyn o bryd.

*Trafodaeth yn y Cyfarfod Llawn*

Bu'r Cynulliad Cenedlaethol yn trafod adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar 13 Ionawr, a chytunodd yn unfrydol i groesawu'r adroddiad a nodi argymhellion y Pwyllgor ar gyfer diwygio'r Bil, sef:

- cael gwared ar y prawf angenrheidrwydd *(gweler isod)* neu gyflwyno prawf sy'n seiliedig ar briodoldeb yn ei le.
- cynnwys system sy'n ei gwneud yn ofynnol cael cydsyniad Gweinidogion y Goron, sy'n adlewyrchu'r model yn Neddf yr Alban 1998.
- lleihau'n sylweddol nifer a maint y materion penodol a gadwyd yn ôl a'r cyfyngiadau.
- cynnwys awdurdodaeth ar wahân i Gymru.

**Y prif broblemau gyda'r Bil drafft presennol**

*Cyfyngiadau ar newidiadau i gyfraith trosedd a chyfraith sifil*

Ar hyn o bryd gall y Cynulliad Cenedlaethol addasu cyfraith contractau, cyfraith gyffredin ac agweddau eraill ar gyfraith breifat a chyfraith trosedd ble bynnag y mae'r addasiadau hynny'n ymwneud â phwnc sydd wedi'i ddatganoli. Mae hynny'n cynnwys creu trosedd lle bo'n briodol er mwyn rhoi grym i ddeddfwriaeth.

Mae Prif Weinidog Cymru wedi dweud y byddai'r Bil drafft yn cyfyngu ar y pŵer hwn yn sylweddol (drwy gyflwyno cyfres o brofion cyfreithiol newydd, gan gynnwys y prawf angenrheidrwydd, y mae'n rhaid i ddarpariaeth sy'n diwygio cyfraith sifil neu gyfraith trosedd ei basio er mwyn bod o fewn terfynau cymhwysedd y Cynulliad) sy'n anghyson â mandad refferendwm 2011, ac y byddai'n golygu ei bod yn anochel y bydd mwy o Filiau yn cael eu cyfeirio at y Goruchaf Lys.

Dywedodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Materion Cymreig fod angen ffin er mwyn atal camau i addasu'r modd y caiff cyfraith trosedd a chyfraith sifil eu gweithredu'n gyffredinol, a'i bod yn bwysig er mwyn gwarchod awdurdodaeth Cymru a Lloegr fel un corff.

Mae Prif Weinidog Cymru wedi cynnig creu awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân i Gymru er mwyn adlewyrchu'r corff cynyddol o gyfraith Gymreig, a'i gwneud yn haws diffinio pwerau'r Cynulliad Cenedlaethol yng nghyswllt cyfraith breifat a chyfraith trosedd mewn modd sy'n gyson â mandad y refferendwm.

*Cydsyniadau Gweinidogol*

Byddai'r Bil drafft yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y DU gydsynio ag unrhyw ddarpariaeth mewn Bil Cymreig sy'n addasu'r canlynol:

- unrhyw un o swyddogaethau un o Weinidogion y DU, hyd yn oed os yw'n perthyn i faes datganoledig
- unrhyw un o swyddogaethau un o Adrannau Llywodraeth y DU, hyd yn oed os yw'n perthyn i faes datganoledig
- unrhyw un o swyddogaethau awdurdod a gedwir yn ôl.

Mae Prif Weinidog Cymru wedi dweud bod hynny'n ymestyn yn sylweddol yr amgylchiadau lle byddai'n ofynnol i'r Cynulliad gael cydsyniad Llywodraeth y DU er mwyn deddfu.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi dweud ei fod yn fodlon archwilio'r mater.

*Rhestr o feysydd a gedwir yn ôl*

Mae Prif Weinidog Cymru wedi dweud bod y rhestr o feysydd a gedwir yn ôl yn cynnwys materion a ddylai gael eu datganoli neu faterion sy'n rhy fach i'w cynnwys mewn dogfen gyfansoddiadol, ac y dylai'r rhestr gael ei lleihau'n sylweddol. Mae'r materion hynny'n cynnwys trwyddedu alcohol, yr Ardoll Seilwaith Cymunedol, pedleriaid, masnachu ar y stryd, a'r cod i dafarnau.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi dweud ei fod yn fodlon ystyried lleihau'r rhestr o feysydd a gedwir yn ôl.

**Y camau nesaf**

Bydd y Pwyllgor Materion Cymreig yn cyhoeddi ei adroddiad yn fuan. Disgwylir y bydd y Bil, gan gynnwys unrhyw ddiwygiadau a wneir gan Lywodraeth y DU, yn cael ei gyflwyno yn Senedd San Steffan yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf. Ar sail yr amserlen bresennol, byddai'r Bil yn mynd drwy Dŷ'r Cyffredin ac yn cael ei gyflwyno yn Nhŷ'r Arglwyddi erbyn mis Gorffennaf. Nod Llywodraeth y DU yw bod y Bil yn cael Cydsyniad Brenhinol yn 2017.